

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 09 fed o Rhagfyr 2021

## Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Cyflwyniad gan Eiliw Owen o Cwmni tai Adra
4. Datgan buddiant
5. Derbyn cofnodion 11eg o Dachwedd 2021
6. Materion yn codi o'r cofnodion
7. Materion ariannol
  - a. Cyfarfod IBC 1af o Rhagfyr 2021
    - i. Mantolen ariannol
    - ii. Ceisiadau Nawdd
    - iii. Taliadau
    - iv. Drafft Cynllun Busbes
8. Logo newydd
9. Cynllunio

C21/1022/25/DT 1, Elizabeth Terrace High Street, Glasinfryn, Bangor, Gwynedd, LL57 4UW Cais Estyniad llawr cyntaf i gefn ty annedd
10. Materion y Clerc

▪ Diffibs	Diweddariad
▪ Septic Tanc	Diweddariad
▪ Torri Llwybrau Pentir	
▪ Lon Plas Pentir/Rhiwlas	
▪ Cerrig Beddi wedi eu difrodi	
▪ Costau Ink a Papur	£68.98
11. Materion y Cynghorwyr
  - a. Cyng J Lewis
    - i. Parcio wrth Hen Gapel
    - ii. Blodau Gwyllt
  - b. Cyng M Baines
    - i. Traffig Ffordd Penrhos - diweddariad

# Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 11eg o Dachwedd 2021

1. **Presennol:** Cyngorwyr M. Lynch; E. Jones; M. Baines; J. Griffiths; J. Pierce; a'r Clerc E Jones
2. **Ymddiheuriadau:**  
Cyngorwyr D W Jones; D. Jones-Morris; B. Jones; L. A. James; J Lewis; H Griffiths; T A Williams;  
Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cyng M Lynch
3. **Cyflwyniad gan Mike Plant Gwasanaeth Tan ag Achub Gog Cymru**  
Croeswyd Mike Plant gan y cadeirydd cyn iddo gyflwyno amlinnelliad o'i ddyletswyddau gyda'r Gwasanaeth Tan ag Achub ar ffurf 'Powerpoint' Cytunodd i anfon y cyflwyniad yn electronig ar gyfer y rhai oedd yn absennol
4. **Datgan buddiant**  
Esbonwyd eto y broses ynglyn a datgan buddiant yn rhithiol.  
Dim datganiad
5. **Derbyn cofnodion** 14eg o Hydref 2021 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir  
Cyng E. Jones yn cynnig a Cyng J Pierce yn eilio
6. **Materion yn Codi o'r cofnodion**  
Dim nad oedd wedi eu cynnwys o fewn yr agenda
7. **Materion ariannol**
  - **Cyfarfod IBC 27ain o Hydref 2021**
    - **Mantolen ariannol** 'Roedd y fantolen wedi ei rhannu'n electronig yn dangos £49,909.43 yn y cyfrif cyfredol a £35,039.39 yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn £0.88 o log
    - **Ceisiadau Nawdd** – Dim cais am nawdd a dal i ddisgwyl mantolen Llais Ogwan
    - **Taliadau** Cadarnhawyd i dalu y taliadau oedd yn ddyledus **sef** Dwr Cymru Sistem Glasinfryn £ 283.97 D W Lewis Torri gwair Hydref £ 750.00 HMRC Hydref £ 149.80 Cyflog Hydref £ 600.04 a Hughes Jones Dyson Cyflogres 20/21 £ 180.00
    - **Archwilwyr Allannol** Dim diweddariad Yn unol a chais yr Archwilwyr wedi datgan hynny ar ein gwefan
8. **Logo newydd** Dim diweddariad yn absennoldeb Cyng L A James
9. **Cynllunio**

C21/1024/25/DT Bryn Goleu, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4UU Cais ar gyfer codi to canopi ar ochr yr eiddo a chodi modurdy breswyl **Dim gwrthwynebiad**

C21/0983/25/RC Glan Menai, Treborth, , Bangor, LL57 2NQ Rhyddhau amod 12 o ganiatâd rhif C19/0788/25/LL parthed manylion tai fforddiadwy. **Dim gwrthwynebiad**
10. **Materion y Clerc**
  - **Cais Nawdd** Llais Ogwan – fantolen ariannol gyfredol wedi cyrraedd a felly **cadarnhau cyfrannu £300 fel nawdd 2021-22**
  - **Diffibs** Talu / diweddariad Clerc wedi gofyn caniatad i wneud taliad am 2 beiriant ychwanegol – 1 i fynd ar wal ystafelloedd newid C P Ieuentid Penrhos a'r llall i ardal yr hynaf pentref Glasinfryn
  - **Cynllun Busnes** Datblygiad Wedi trefnu i gyfarfod yn y Ganolfan Penrhos 1af o Rhagfyr

- **Septic Tanc** Diweddariad Cyswllt wedi ei wneud yn electronig hefo Dwr Cymru i ddatgan diddordeb ag angen erbyn hyn wneud cais Adran 104
- **Unllais Cymru** Ymaelodi 2021-22 Cytunwyd i barhau yn aelodau a thalu ein aelodaeth o £468.00
- **Torri Llwybrau Pentir** Adroddod y Clerc iddo dderbyn nodyn gan Mr G Hughes yn datgan na fyddai yn parhau i ymgymeryd a thorri gwair llwybrau Pentir ar ol eleni Torrwr Llwybrau Llwybrau Bangor a'r Fynwent yn hapus i edrych ar y gwaith a rhoi amcanbris
- **Cerrig Beddi wedi eu difrodi** 2 garreg fedd wedi ei difrodi rhwybryd yn ystod y pandemig ond neb wedi cydnabod hynny **Clerc i gysylltu hefo'r holl ymgymeryd i ddatgan ein siom ag i holi am bris i'w adnewyddu**
- **Cofrestr Risg**  
Cae Chwarae mae Gwynedd yn awyddus i ni gymeryd cyfrifoldeb drostynt **Y Cynllun hwnnw ar hyn o bryd yn nwylo Cyngor Gwynedd all o bosib gynnig opsiwn i weithio mewn partneriaeth**

## 11. Materion y Cynghorwyr

### **Cyng M Baines Cynlluniau Adra yn Bro Infryn a Glan Menai**

Esboniodd y Cyng fod aelod o staff Adra Eiliw Owen wedi cysylltu a hi yn datgan fod gan y cwmni gynlluniau i'w rhannu ynglyn a'i bwriad i adeiladu tai ychwanegol yn Bro Infryn ag addasu mymryn ar ei cynlluniau yn Glan Menai sydd wedi cael caniatad adeliadu

**Cytunwyd gwahodd Eiliw Owen i'n cyfarfod yn Mis Rhagfyr 9fed**

### **Cyng E Jones Llwybr Treborth os oes yna ddiweddariad**

Wedi derbyn nodyn gan y Swyddog Tramwy yn datgan y byddai o bosib 12 mis cyn byddai cyfle i gychwyn y broses gyfreithiol. Hyn yn hynod siomedig

**Clerc i gysylltu i weld os oes unrhyw fodd i allu cyflymu petha**

**Cyng J Griffiths** Arwydd wrth giat fochyn y llwybr cyhoeddus Tros y Waun yn dangos ffordd anwastad fel sydd ar gyfer ceir ar y ffordd fawr

**Clerc i holi yn ogystal a'r Cyng Sir**

**Daeth y cyfarfod i ben 8.30**

DWJ

09-12-21